Cyfarfod Mawrth 5/3/18.

Cofnodion Cyfarfod Chwefror 5/2/18.

Presennol:- Mrs L Gillham(Cadeirydd),Mrs E A Parry, Mr Arwel Hughes,Mr P Jones,Mrs E A Thomas Jones,Mr R Owen,Mr N G Marten, Mr K Hughes(Ynys Mon).

Mr Arwel Hughes yn cadarnhau y Cofnodion yn gywir a Mrs E A ThomasJones yn eilio.

Materion yn Codi, bron pawb yn siomedig eu bod hi yn amhosib i'r Cyngor gofrestru eu hunain fel Perchnogwyr y Lon bach am y fynwent heibio y Capel.Dim ymateb o'r Adran Priffyrdd yn dilyn ein llythyr am ein pryderon ynglyn ar gor yrru rhwng y Black ar arwydd 30.Mr K Hughes am wneud ymholiadau.

Derbynwyd yr Ohebiaeth- Diolch i Mr J Roberts(Caernarfon) am ei waith gofalus fel Arolygwr Mewnol a dymuniadau gorau ar ei ymddeoliad, cytuno i dalu y bil olaf. Cytuno i beidio a chefnogi Cangen Mon o U.G.C. a cadw i'r drefn o gefnogi yr ysgol leol hefo rhodd tuag at eu costau, os y byddant yn mynd i'r Eisteddfod yn Builth.Cefnogwyd dau gais cynllunio, sef ffenestr newydd yn Buttercup a man newidiadau i gynlluniau Crud yr Awel.Ateb gan yr adran gynllunio yn dweud ni fyddant yn cadw golwg ar ddatblygiadau ar ol iddynt roi caniatad.Dwr Cymru wedi gaddo gwahoddiad i'r Cyngor i ymweld ar gwaith dwr newydd pan fydd y tywydd yn gwella.Mrs E A ThomasJones ac Mr Arwel Hughes yn awyddus i fynychu cyfarfod Cymorth Cynllunio ar y 27ain o'r mis yn Llangefni.

U,f,A.- Diolch i Mon Grass Cutting Services am brisiau i dorri y fynwent ar Cae chwarae ond 'roedd pris Darrel Hughes o Gaergybi yn dipyn rhatach- trefnu a D.H. i wneud y gwaith.Mwy o gwynion am y dwr yn gorlifo o fynedfa Plasgwynt- y Comm Gang yn delio ar mater Cyflwr y lon am Pen Terfyn byth wedi cael sylw, Priffyrdd yn gaddo yn dda!Codwyd gwyn am y ffaith fod manylion perchnogion tir ar yr A5025 ar wefan y Cyngor Sir a gwybodaeth a ddylir fod yn breifat i'r unigolion yn unig.Cysylltodd y Cynghorydd Mr K Hughes ar Cyngor trwy ebost or cyfarfod.Ateb nos Lun.

GOHEBIAETH 5/3/18.

Llythyrau Ebost.

LL1:- Dan Do Mon.

LL2:-U.LL.C.-Aelodaeth 18-19.

LL3:- H Jenkins &Hughes.

LL4:-Bil Etholiad.

LL5 Haggs.

E1:-Adolygiad o Gynghorau .

E2:-A5025.

LL6:-Aren Cymru.

AGENDA 5/3/18.

Presennol

Ymddiheuriadau.

Cadarnhau'r Cofnodion.

Materion yn Codi.

Gohebiaeth.

Newyddion o Llangefni.

U.F.A.

£12,189.98-£450-£75-£1,800-£200= £9,664.98.